OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 134

Gorchymyn Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*9 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*20 Tachwedd 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 134

The Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) (Amendment) Order 2026

Made	*9 November 2026*
Coming into force	*20 November 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 134

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1275 (Cy. 132)) ("Rheoliadau 2008"). Mae'r diffiniadau o "clefyd" a "cig dan gyfyngiadau" yn Rheoliadau 2008 wedi eu diweddaru, ac mae Atodlen 2 newydd wedi ei rhoi yn lle Atodlen 2 bresennol i Reoliadau 2008 i adlewyrchu'r triniaethau lliniaru risg a gymeradwyir yn bresennol ar gyfer cig a chasinau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

2026 Rhif 134

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*9 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*20 Tachwedd 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2026.

Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli cyffredinol), yn y diffiniad o "clefyd", yn lle "pla'r defaid a'r geifr," rhodder "peste des petits ruminants;".

(3) Yn rheoliad 3 (anifail, dofednod a chig dan gyfyngiadau: diffiniadau), yn lle paragraff (8) rhodder—

> "(8) Yn y Rheoliadau hyn, "cig dan gyfyngiadau" ("*restricted meat*") yw cig—
>
> (a) a gynhyrchwyd o anifail dan gyfyngiadau neu ddofednod dan gyfyngiadau,
>
> (b) a gynhyrchwyd o anifail a oedd yn cael ei gadw ar fangre ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru at ddibenion rheoli clefydau y datgenir

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchmynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a 2004 (O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae'r diffiniad o "disease" yn adran 88(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, fel y mae'n gymwys yng Nghymru, wedi ei estyn gan Orchymyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (Estyn y Diffiniad o Glefyd) (Cymru) 2026 (O.S.C. 2026/114) i gynnwys clefyd pothellog y moch.

(**2**) O.S. 2008/1275 (Cy. 132); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2009/1373 (Cy. 136) ac O.S. 2014/1894.

wedyn ei bod yn ardal heintiedig, yn barth gwarchod neu'n barth goruchwylio,

(c) a gynhyrchwyd o foch sydd wedi eu brechu yn erbyn clwy clasurol y moch neu glwy Affricanaidd y moch o fewn cyfnod o amser a bennir gan Weinidogion Cymru, ac eithrio pan fo brechlyn marcio (o fewn yr ystyr a roddir i "marker vaccine" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Clefydau Moch 2014(**3**)) wedi ei ddefnyddio, neu

(d) sydd wedi dod i gyffyrddiad â chig a gynhyrchwyd yn unol ag is-baragraffau (a), (b) neu (c)."

(4) Yn lle Atodlen 2 (triniaethau cig a gymeradwyir) rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llyr Gruffydd
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru
9 Tachwedd 2026

(**3**) O.S. 2014/1894, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

YR ATODLEN

Erthygl 2(4)

Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 2 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

"ATODLEN 2

Rheoliadau 2, 3 a 13

Triniaethau lliniaru risg a gymeradwyir ar gyfer cig a chasinau

Triniaeth - cig heblaw casinau	**Clefydau y mae'r driniaeth yn effeithiol yn eu herbyn**					
	ASF(**4**)	CSF(**5**)	PPR(**6**)	RP(**7**)	NCD(**8**)	SVD(**9**)
(a) Triniaeth â gwres mewn cynhwysydd wedi ei selio'n hermetig i gyflawni isafswm gwerth F_o o 3(**10**)	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie
(b) Triniaeth â gwres i gyflawni tymheredd craidd o 70°C	Nage	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie
(c) Triniaeth â gwres i gyflawni tymheredd craidd o 80°C	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie	Ie
(d) Triniaeth â gwres mewn cynhwysydd wedi ei selio'n hermetig yn cymhwyso 60°C am isafswm o bedair awr	Ie	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage
(e) Triniaeth â gwres mewn cynhwysydd wedi ei selio'n hermetig i o leiaf 60°C am isafswm o bedair awr, ac yn ystod y cyfnod hwnnw rhaid i'r tymheredd craidd fod o leiaf 70°C am ddeng munud ar hugain	Nage	Nage	Nage	Ie	Nage	Ie
(f) Tymheredd craidd o 73.9°C am isafswm o 0.51 eiliad	Nage	Nage	Nage	Nage	Ie	Nage
(g) Tymheredd craidd o 70°C am isafswm o 3.5 eiliad	Nage	Nage	Nage	Nage	Ie	Nage
(h) Tymheredd craidd o 65°C am isafswm o 42 o eiliadau	Nage	Nage	Nage	Nage	Ie	Nage
(i) Tymheredd craidd o 60°C am isafswm o 507 o eiliadau	Nage	Nage	Nage	Nage	Ie	Nage

(**4**) Clwy Affricanaidd y moch.
(**5**) Clwy clasurol y moch.
(**6**) Peste des petits ruminants.
(**7**) Rinderpest.
(**8**) Clefyd Newcastle.
(**9**) Clefyd pothellog y moch.
(**10**) F_o yw'r effaith ladd wedi ei chyfrifo ar sborau bacterol. Mae gwerth F_o o 3 yn golygu bod y pwynt oeraf yn y cynnyrch wedi ei wresogi'n ddigonol i gyflawni'r un effaith ladd ag 121°C mewn tair munud gyda gwresogi ac oeri ebrwydd.

(j) Triniaeth â gwres i gig y tynnwyd yr esgyrn a'r braster ohono yn flaenorol i gyflawni tymheredd craidd o 70°C am isafswm o ddeng munud ar hugain	Ie	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage
(k) Triniaeth â gwres i gyflawni tymheredd craidd o 65°C am gyfnod o amser i gyflawni isafswm gwerth pasteureiddio o 40(**11**)	Nage	Nage	Ie	Nage	Nage	Nage
(l) Eplesu ac aeddfedu naturiol ar gyfer cig y tynnwyd yr esgyrn ohono am isafswm o 9 mis i gyflawni uchafswm gwerth Gweithgaredd Dŵr ("Aw") o 0.93 ac uchafswm gwerth pH o 6(**12**)	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage	Ie
(m) Eplesu ac aeddfedu naturiol ar gyfer cig â'r esgyrn ynddo am isafswm o 9 mis i gyflawni uchafswm gwerth Aw o 0.93 ac uchafswm gwerth pH o 6	Nage	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage
(n) Eplesu naturiol ar gyfer lwynau am isafswm o 140 o ddiwrnodau i gyflawni uchafswm gwerth Aw o 0.93 ac uchafswm gwerth pH o 6	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage
(o) Eplesu naturiol ar gyfer hamiau am isafswm o 190 o ddiwrnodau i gyflawni uchafswm gwerth Aw o 0.93 ac uchafswm gwerth pH o 6	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage
(p) Sychu ar ôl halltu hamiau â'r esgyrn ynddynt o fath Eidalaidd - sychu am isafswm o 313 o ddiwrnodau	Nage	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage
(q) Sychu ar ôl halltu hamiau a lwynau â'r esgyrn ynddynt o fath Sbaenaidd— • Hamiau Iberaidd - sychu am isafswm o 252 o ddiwrnodau • Ysgwyddau Iberaidd - sychu am isafswm o 140 o ddiwrnodau • Lwynau Iberaidd - sychu am isafswm o 126 o ddiwrnodau • Hamiau serrano - sychu am isafswm o 140 o ddiwrnodau	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage	Nage

(**11**) Ystyr gwerth pasteureiddio yw hyd (mewn munudau) y broses sterileiddio neu basteureiddio gyfan, ar dymheredd diffiniedig.

(**12**) Ystyr Gweithgaredd Dŵr yw'r gweithgaredd dŵr i fwyd sef y gymhareb rhwng pwysedd anwedd y bwyd ei hun, pan fydd mewn cydbwysedd cwbl ddigynnwrf â'r cyfryngau aer o'i gwmpas, a phwysedd anwedd dŵr distyll o dan yn union yr un amodau. Ystyr pH yw'r ffigur sy'n mynegi asidedd neu alcalinedd hydoddiant ar raddfa logarithmig.

Triniaeth - casinau						
(r) Halltu â sodiwm clorid (NaCl) naill ai'n sych neu fel heli dirlawn (gyda chynnwys Aw o lai na 0.8) am gyfnod parhaus o 30 o ddiwrnodau o leiaf ar dymheredd amgylchynol o 20°C neu'n uwch	Ie	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage
(s) Halltu â halen wedi ei atchwanegu â ffosffad gyda 86.5% sodiwm clorid (NaCl), 10.7% ffosffad disodiwm (Na_2HPO_4) a 2.8% ffosffad trisodiwm (Na_3PO_4) naill ai'n sych neu fel heli dirlawn (gyda chynnwys Aw o lai na 0.8) am gyfnod parhaus o 30 o ddiwrnodau o leiaf ar dymheredd amgylchynol o 20°C neu'n uwch	Ie	Ie	Ie	Nage	Nage	Nage"

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 134

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) (Amendment) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/1275 (W. 132)) ("the 2008 Regulations"). The definitions of "disease" and "restricted meat" in the 2008 Regulations are updated, and a new Schedule 2 is substituted into the 2008 Regulations to reflect the current approved risk mitigating treatments for meat and casings.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2026 No. 134

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) (Amendment) Order 2026

Made	*9 November 2026*
Coming into force	*20 November 2026*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 1 of the Animal Health Act 1981(**1**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) (Amendment) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 20 November 2026.

Amendments to the Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) Regulations 2008

2.—(1) The Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) Regulations 2008(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation: general), in the definition of "disease", for "sheep and goat plague," substitute "peste des petits ruminants;".

(3) In regulation 3 (restricted animal, restricted poultry and restricted meat: definitions), for paragraph (8) substitute—

"(8) In these Regulations, "restricted meat" ("*cig dan gyfyngiadau*") is meat—

(a) produced from a restricted animal or restricted poultry,

(b) produced from an animal held on premises on a date specified by the Welsh Ministers for the purposes of disease control that is subsequently declared to be an infected area, a protection zone or a surveillance zone,

(**1**) 1981 c. 22. Functions of "the Ministers" under the Animal Health Act 1981 (as defined in section 86(1) of that Act) are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Orders 1999 and 2004 (S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044) and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The definition of "disease" in section 88(1) of the Animal Health Act 1981, as it applies in Wales, is extended by the Animal Health Act 1981 (Extension of Definition of Disease) (Wales) Order 2026 (W.S.I. 2026/114) to include swine vesicular disease.

(**2**) S.I. 2008/1275 (W. 132); relevant amending instruments are S.I. 2009/1373 (W. 136) and S.I. 2014/1894.

(c) produced from pigs that have been vaccinated against classical swine fever or African swine fever within a period of time specified by the Welsh Ministers, except where a marker vaccine (within the meaning given in regulation 2(1) of the Diseases of Swine Regulations 2014(**3**)) has been used, or

(d) that has come into contact with meat produced in accordance with sub-paragraphs (a), (b) or (c).”

(4) For Schedule 2 (approved meat treatments) substitute the Schedule set out in the Schedule to this Order.

Llyr Gruffydd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability, one of the Welsh Ministers
9 November 2026

(**3**) S.I. 2014/1894, to which there are amendments not relevant to this Order.

SCHEDULE

Article 2(4)

Schedule to be substituted for Schedule 2 to the Products of Animal Origin (Disease Control) (Wales) Regulations 2008

"SCHEDULE 2

Regulations 2, 3 and 13

Approved risk mitigating treatments for meat and casings

Treatment - meat other than casings	**Diseases against which the treatment is effective**					
	ASF(**4**)	CSF(**5**)	PPR(**6**)	RP(**7**)	NCD(**8**)	SVD(**9**)
(a) Heat treatment in a hermetically sealed container to achieve a minimum F_o value of 3(**10**)	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes
(b) Heat treatment to achieve a core temperature of 70°C	No	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes
(c) Heat treatment to achieve a core temperature of 80°C	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes	Yes
(d) Heat treatment in a hermetically sealed container applying 60°C for a minimum of four hours	Yes	Yes	Yes	No	No	No
(e) Heat treatment in a hermetically sealed container to at least 60°C for a minimum of four hours during which time the core temperature must be at least 70°C for thirty minutes	No	No	No	Yes	No	Yes
(f) Core temperature of 73.9°C for a minimum of 0.51 seconds	No	No	No	No	Yes	No
(g) Core temperature of 70°C for a minimum of 3.5 seconds	No	No	No	No	Yes	No
(h) Core temperature of 65°C for a minimum of 42 seconds	No	No	No	No	Yes	No
(i) Core temperature of 60°C for a minimum of 507 seconds	No	No	No	No	Yes	No
(j) Heat treatment to meat previously de-boned and de-fatted to achieve a core	Yes	Yes	Yes	No	No	No

(**4**) African swine fever.
(**5**) Classical swine fever.
(**6**) Peste des petits ruminants.
(**7**) Rinderpest.
(**8**) Newcastle disease.
(**9**) Swine vesicular disease.
(**10**) F_o is the calculated killing effect on bacterial spores. An F_o value of 3 means that the coldest point in the product has been heated sufficiently to achieve the same killing effect as 121°C in three minutes with instantaneous heating and chilling.

temperature of 70°C for a minimum of thirty minutes						
(k) Heat treatment to achieve a core temperature of 65°C for a period of time to achieve a minimum pasteurisation value of 40(**11**)	No	No	Yes	No	No	No
(l) Natural fermentation and maturation for de-boned meat for a minimum of 9 months to achieve maximum values of Water Activity ("Aw") of 0.93 and pH of 6(**12**)	Yes	Yes	No	No	No	Yes
(m) Natural fermentation and maturation for bone-in meat for a minimum of 9 months to achieve maximum values of Aw of 0.93 and pH of 6	No	Yes	No	No	No	No
(n) Natural fermentation for loins for a minimum of 140 days to achieve maximum values of Aw of 0.93 and pH of 6	Yes	Yes	No	No	No	No
(o) Natural fermentation for hams for a minimum of 190 days to achieve maximum values of Aw of 0.93 and pH of 6	Yes	Yes	No	No	No	No
(p) Drying after salting Italian-style bone-in hams - drying for a minimum of 313 days	No	Yes	No	No	No	No
(q) Drying after salting Spanish-style bone-in hams and loins— • Iberian hams - drying for a minimum of 252 days • Iberian shoulders - drying for a minimum of 140 days • Iberian loins - drying for a minimum of 126 days • Serrano hams - drying for a minimum of 140 days	Yes	Yes	No	No	No	No
Treatment - casings						
(r) Salting with sodium chloride (NaCl) either dry or as saturated brine (with an Aw content of less than 0.8) for a continuous period of at least 30	Yes	Yes	Yes	No	No	No

(**11**) Pasteurisation value means the duration (in minutes) of the entire sterilisation or pasteurisation process, at a defined temperature.

(**12**) Water Activity means the water activity of a food being the ratio between the vapour pressure of the food itself, when in a completely undisturbed balance with the surrounding air media, and the vapour pressure of distilled water under identical conditions. pH means the figure expressing the acidity or alkalinity of a solution on a logarithmic scale.

days at an ambient temperature of 20°C or above						
(s) Salting with phosphate supplemented salt with 86.5% sodium chloride (NaCl), 10.7% disodium phosphate (Na_2HPO_4) and 2.8% trisodium phosphate (Na_3PO_4) either dry or as saturated brine (with an Aw content of less than 0.8) for a continuous period of at least 30 days at an ambient temperature of 20°C or above	Yes	Yes	Yes	No	No	No”

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839902-8

9 780348 399028